# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Tachwedd 2021

Amser: 09.04 - 09.38

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Russell George AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Lowri Weatherburn (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Anfonodd Darren Miller ei ymddiheuriadau ac roedd Russell George yn bresennol yn ei le.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021 –**

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Diwygio'r Dreth Gyngor yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (45 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Casgliad yr Adolygiad Ffiniau Etholiadol (45 munud)~~ – *datganiad ysgrifenedig*

**Dydd Mawrth 14 Rhagfyr 2021 –**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Cefnogi'r bwriad i greu Banc Cymunedol i Gymru (45 munud)

- Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (30 munud)

**Dydd Mawrth 11 Ionawr 2022 –**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cymru Iachach (45 munud) – *gohiriwyd o 30 Tachwedd 2021*

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 12 Ionawr 2022 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Dyled a'r pandemig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen gyda dyddiad cau diwygiedig o 8 Ebrill 2022, ar gais y Pwyllgor Cyllid, ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1.

**4.2 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) a'r wybodaeth ddiweddaraf am Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Nododd y Rheolwyr Busnes y cyfnod eithriadol o dynn ar gyfer craffu a chytunodd, o ystyried nad oedd pwyllgorau'n debygol o allu bodloni'r terfyn amser adrodd o 2 Rhagfyr a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, y byddai'n bosibl gosod adroddiadau pwyllgorau ar unrhyw adeg cyn cynnal dadl y Cyfarfod Llawn ar 7 Rhagfyr.

*Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau o 9 Rhagfyr ar gyfer cyflwyno adroddiad arno. Nododd y Rheolwyr Busnes y cyfnod cywasgedig ar gyfer craffu.

*Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol*

Nododd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf am Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Cyfarfod Llawn

### 5.1 Llythyr gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais i Aelodau o'r Pwyllgor gael eu hesgusodi o'r Cyfarfod Llawn ar yr adegau y gofynnwyd amdanynt a nodwyd y rhesymau pam nad oedd y pwyllgor wedi gallu dod o hyd i slot cyfarfod arall y tro hwn.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - Cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am ragor o wybodaeth am statws presennol penderfyniadau sy'n ymwneud â dyfodol yr adeilad cyn iddynt wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cytuno i drefnu dadl.

## Unrhyw faterion eraill

Gofynnodd Jane Dodds AS am eglurder ynghylch y sefyllfa o ran Aelodau'n gwisgo gorchuddion wyneb yn y Siambr pan nad ydynt yn siarad, gan nodi bod gwisgo masgiau wedi dod yn bwysicach ac yn fwy cyffredin yng ngoleuni'r amrywiolyn Covid-19 newydd. Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa'r holl Aelodau o'r cyngor presennol y dylid gwisgo gorchuddion wyneb yn y Siambr pan nad yw Aelodau'n siarad a dywedodd y byddai'n ystyried y cyngor presennol ymhellach ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau os oes angen.

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at yr ychwanegiadau a ganlyn i agenda heddiw:

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Diweddariad ar COVID-19 (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol – Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl (45 munud)

Mae'r datganiad ar 'Cymru Iachach' a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ill dau wedi'u gohirio tan 11 Ionawr.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.20pm.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am ei bwriad i gyhoeddi canlyniadau etholiad Senedd Ieuenctid Cymru ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, cyn galw'r busnes ffurfiol.

Nododd y Llywydd y bwriedir i'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ddechrau ar 1 Rhagfyr. Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod wedi bod yn gohebu â'r Prif Weinidog am fanylion y cytundeb ac wedi gofyn am i wybodaeth am sut y bydd yn gweithio'n ymarferol gael ei rhannu ag Aelodau'r Senedd cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd y wybodaeth hon ar gael, dywedodd y Llywydd ei bod yn bwriadu gwneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar unrhyw effaith y gallai'r trefniadau ei chael ar weithrediad Busnes y Senedd.